



CANLLAW ADDYSG UWCH
2024 - 2025

LLWYDDWCH

»» YN COLEG GWENT



LLWYDDWCH

>> GYDA GRADD O COLEG GWENT

Oes gennych ddiddordeb mewn ennill cymhwyster prifysgol ond yn bryderus am y gost? Edrych dim pellach na Choleg Gwent. Mae gennym nifer cynyddol o gyrsiau addysg uwch ar gael ar draws pob un o'n pum campws. Felly, rydyn ni'n siŵr y bydd gennym ni gwrs at eich dant chi.

Fe'l un o golegau mwyaf Cymru gyda chymuned fyfyrwyr o dros 16,000 o ddysgwyr, rydym yn croesawu myfyrwyr o bob cefndir.

Gall astudio yn Coleg Gwent agor rhwydweithiau proffesiynol ac ehangu eich cyfleoedd, p'un a ydych am gael mantais yn y farchnad swyddi hynod gystadleuol, symud ymlaen yn eich gyrfa bresennol neu archwilio llwybr gyrfa newydd, gallwch ei wneud hynny yn Coleg Gwent.



CYSYLLTWCH Â NI

Anfonwch unrhyw gwestiynau sydd gennych at ein tîm recriwtio myfyrwyr cyfeillgar.

>> HELO@COLEGGWENT.AC.UK

>> 01495 333777

(Croesawn alwadau yn Gymraeg).



CYNNWYS

- 2 Croeso
- 4 Pam Dewis Coleg Gwent?
- 6 Digwyddiadau Agored
- 7 Campysau
- 8 Eich Cefnogi Chi
- 10 Canolbwyntio ar Gyllid
- 14 Eich Canllaw Cymwysterau
- 16 Astudiaethau Ceffylau ac Iechyd Anifeiliaid
- 18 Celf, Dylunio, y Cyfryngau a Ffotograffiaeth
- 20 Cyfrifiadureg a Thechnoleg Ddigidol
- 22 Adeiladu A'r Amgylchedd Adeiledig
- 24 Addysg a Hyfforddiant
- 26 Peirianeg
- 28 Colur ar gyfer y Theatr/Cyfryngau a Therapiau Cyflenwol
- 30 Iechyd a Gofal
- 32 Cerdd
- 34 Gwyddoniaeth
- 36 Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus
- 38 Mynediad I Brifysgol
- 40 Sut I Wneud Cais



PAM DEWIS NI?



RYDYM NI'N LLEOL

Arbedwch arian ar gostau teithio a llety drwy astudio'n agosach at eich cartref. Bydd gennych ragor o amser i dreulio gyda ffrindiau, teulu neu yn y gwaith.



CYRSIAU HYBLYG

Mae ein hystod eang o bynciau ac opsiynau astudio yn golygu y gallwch astudio'n llawn amser neu'n rhan amser, i gyd-fynd â gwaith neu ymrwymadau eraill.



LLWYDDWCH GYDA NI

Gall ein cyrsiau addysg uwch proffesiynol perthnasol roi mantais i chi mewn cystadleuaeth, gan gynyddu'ch cyflog o bosib, a rhoi mwy o gyfleoedd a gyrfa werth chweil i chi. Mae dros hanner ein dysgwyr yn ychwanegu at eu gradd yn ein prifysgolion partner.



GALLECH ARBED ARIAN

Mae rhai o'n cyrsiau addysg uwch yn rhatach na'r rheini mewn prifysgolion, felly gallech arbed miloedd o bunnoedd ar ffioedd dysgu!

Mae ein holl gyrsiau wedi'u hachredu gan ein prifysgolion partner sy'n golygu y bydd gennych fynediad at yr holl adnoddau sydd eu hangen arnoch i lwyddo. Os ydych yn cwblhau cwrs sy'n cael ei ddyfarnu gan un o'n prifysgolion partner, cewch dystysgrif gan y brifysgol a chewch eich gwahodd i seremoni raddio.

LLWYDDWCH MEWN PARTNERIAETH Â



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd





PROFIAD YN Y GWEITHLE

Fel rheol, mae ein cyrsiau yn cynnwys dysgu yn y gweithle yn ogystal ag yn y coleg, felly byddwch yn magu sgiliau sy'n ymwneud â gyrfa ac yn cael profiad mewn diwydiant penodol. Dyma'r elfennau mae cyflogwyr eisiau eu gweld, ac felly cewch gyfle da i ddod o hyd i'r yrfa yr ydych yn dyheu amdani.



CYMORTH ARIANNOL

Mae ystod eang o grantiau, bwrsariaethau a benthyciadau gan y llywodraeth ar gael i'ch cefnogi chi wrth i chi astudio – felly gallwch roi'r gorau i boeni am arian a chanolbwyntio ar ennill eich cymhwyster lefel prifysgol.



TIWTORA GWELL

Mae maint llai ein dosbarthiadau yn golygu y byddwch yn derbyn cymorth rhagorol gan staff darlithio a staff cymorth ymroddedig.



DIGWYDDIADAU AGORED

» GWNEWCH Y CAM NESAF ER MWYN LLWYDDO

Mae ein digwyddiadau agored yn trafod popeth y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohono ynghylch bywyd yn y coleg, cymorth, cyllid, ein cyrsiau a llawer mwy. Mae croeso i bawb ac rydym yn eich annog chi i fynnu'ch lle ymlaen llaw ar ein gwefan er mwyn cofrestru'n gyflym. Rydym hefyd yn croesawu pobl sy'n galw heibio yn ddirybudd. Mae pob un o'n campysau yn cynnig gwahanol bynciau, felly yn dibynnu ar ba bynciau ydych chi am eu trafod mewn digwyddiad agored, ewch i'r campws perthnasol.

Rydym hefyd yn cynnal digwyddiadau agored rhithiol gydol y flwyddyn, felly cadwch llygad ar ein gwefan am ddiweddariadau.



YN EIN DIGWYDDIADAU AGORED GALLWCH:



Gael rhagor o wybodaeth ynghylch cwrs neu faes pwnc gan ein tiwtoriaid arbenigol



Cael cipolwg o'r campws, y cyfleusterau a'r dosbarthiadau



Dysgu am y broses ymgeisio a gwneud cais yn y fan a'r lle



Cael rhagor o wybodaeth am yrfaedd posibl



Cael gwybodaeth ynghylch cymorth ariannol



Cael gwybodaeth ynghylch ein gwasanaethau cymorth

**COFRESTRWCH
NAWR**



Ewch i'n gwefan i weld rhestr gyfredol o'r holl ddigwyddiadau agored sydd gennym ar y gweill, ac i fynnu'ch lle ynddynt:

» [WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AGORED](http://www.coleggwent.ac.uk/agored)

CAMPYSAU

EISIAU RHAGOR O WYBODAETH YNGHYLCH EIN CAMPYSAU?

Wyddoch chi y gallwch fynd ar daith o'n campysau ar unrhyw bryd, heb orfod gadael y tŷ? Ewch am dro ar ein campysau drwy ein llyrfan digwyddiad rhithiol. Ewch i

» WWW.VIRTUAL.COLEGGWENT.AC.UK/CY



CAMPWS CROSSKEYS

Mae ein campws mwyaf, lle mae ein stiwdios ffotograffiaeth a chyfleusterau'r theatr trawiadol wedi'u lleoli ar gyfer cyrsiau y celfyddydau perfformio, yn ogystal â llyfrau gydag adnoddau Mac, llyfrau a mynediad at gylchgronau ar-lein – a llawer mwy!



PARTH DYSGU BLAENAU GWENT

Mae gan Barth Dysgu blaenllaw Blaenau Gwent gyfleusterau o'r radd flaenaf yn cynnwys gweithdai adeiladu pwrpasol, stiwdios recordio, ystafelloedd cyfrifiaduron Mac, neuadd berfformio, llyfrgell a'n car rasio ac awyren ein hunain!



CAMPWS DINAS CASNEWYDD

Mae gan ein campws Dinas Casnewydd lu o gyfleusterau - gan gynnwys gweithdai peirianeg ac adeiladu gyda chyfarpar da, labordai gwyddoniaeth, yn ogystal ag ystafell technoleg ddigidol arloesol.



PARTH DYSGU TORFAEN

Yn cynnig ystod eang o bynciau, mae Parth Dysgu Torfaen yng nghanol Cwmbrân gyda pharcio ar y safle ac mae'n hynod hygyrch drwy drafnidiaeth gyhoeddus.



CAMPWS BRYNBUGA

Ar gampws Brynbuga y darperir ein cyrsiau amaethyddiaeth, chwaraeon a hamdden. Wedi'i leoli yng nghanol cefn gwlad hardd ar gyrion tref hanesyddol Brynbuga.

EICH CEFNOGI CHI

TIWTORIAID PERSONOL

A chithau'n ddysgwr addysg uwch, cewch gymorth unigol gan diwtor personol o'r eiliad y byddwch yn ymuno â Coleg Gwent. Cewch diwtorialau rheolaidd a bydd eich tiwtor yn monitro'n agos eich cynnydd ac yn eich cefnogi chi drwy eich astudiaeth. Bydd eich tiwtor yn eich helpu chi i ymgartrefu yn y coleg, eich arwain drwy eich cwrs, yn cynnig cymorth yn ystod unrhyw gyfnodau anodd ac yn dathlu'ch llwyddiannau.



HYBIAU ADDYSG UWCH

Ar rai campysau penodol, cewch le arbennig ar gyfer eich dysgwyr addysg uwch gyda; chyfrifiaduron, ardaloedd trafod a soffas ar gyfer astudio tawel neu ymlacio. Beth am fynd ar daith o gwmpas un ohonynt yn un o'n digwyddiadau agored?

CYDNABYDDIAETH O DDYSGU BLAENOROL (RPL)

Mae Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RPL) yn cynnig y cyfle ichi ennill cydnabyddiaeth o lwyddiannau academiaidd perthnasol blaenorol ac yn caniatáu i gredyd cael ei drosglwyddo i'r cwrs newydd, er mwyn osgoi dyblygu dysgu blaenorol. Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus arddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau dysgu'r modiwl yn flaenorol.

Sganiwch y cod QR am ragor o wybodaeth:



HYFFORDDWYR CEFNOGAETH ACADEMAIDD A BUGEILIOL ADDYSG UWCH

Ar bob campws mae gennym Hyfforddwyr Cefnogaeth Academaidd a Bugeiliol Addysg Uwch a fydd yn eich cefnogi gydag arweiniad academiaidd a bugeiliol drwy gydol eich rhaglen astudio. Mae Hyfforddwyr Cefnogaeth Academaidd a Bugeiliol Addysg Uwch yn ymroddedig i'ch cefnogi chi drwy unrhyw anhawster, sy'n cynnwys eich cyfeirio at ein timau arbenigol perthnasol.





ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Yn dilyn cadarnhad gan Gyllid Myfyrwyr Cymru/Lloegr, os ydych wedi cofrestru anhawster dysgu ac/neu anabledd, gallwn ddarparu llawer o gymorth..

Gallai'r rhain gynnwys:

- **Cyngor ariannol**
- **Ymdopi â straen a gorbryder**
- **Cymorth yn y dosbarth gan Gymhorthydd Cymorth Ychwanegol**
- **Sesiynau ychwanegol i helpu gydag aseiniadau a gwaith cwrs**
- **Cymorth gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu (i fyfyrwyr byddar) Cymorth dyslecsia**
- **Defnydd o feddalwedd hygyrchedd gan gynnwys hyfforddiant Trefniadau mynediad arholiadau**

Os oes angen cymorth arnoch, siaradwch â'ch Tiwtor Personol, cysylltwch â Chydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCo) eich campws neu swyddog Dilyniant Addysg Uwch.

CYMORTH ASTUDIO YN YR IAITH GYMRAEG A DWYIEITHOG

Mae gennym gymorth ar gael ar bob un o'n campysau os hoffech ddysgu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r 'HWB Cymraeg' yn cynnig gwybodaeth ynghylch buddion astudio'n ddwyieithog, cymorth un i un i gwblhau gwaith yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, arweiniad ar ddefnyddio apiau i helpu gydag astudio'n ddwyieithog a pharatoi at asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.



RYDYM YN GWRANDO ARNOCH

Yn Coleg Gwent, rydym yn gwrandao ar eich safbwyntiau a'ch profiadau ac yn eu defnyddio i wella'n barhaus y profiad i ddysgwyr. Mae sawl ffordd o roi adborth i ni; llais cynrychiolydd dosbarth, fforymau dysgu, pwyllgorau a grwpiau, yn ogystal â holiaduron adborth gan ddysgwyr.

CANOLBWYNTIO AR GYLLID

Mae cwrs addysg uwch yn fuddsoddiad yn eich dyfodol; er bod costau ynghlwm â dysgu, boed ar ffurf amser neu'n ariannol yn sgil ffioedd dysgu, mae'n bosibl y byddwch yn gymwys am gymorth ariannol sy'n golygu gallai'r gost fod yn is na'r disgwyl.

BETH YW'R GOST?

► Cyrsiau sy'n cael eu hachredu gan Brifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth

Mae Graddau Sylfaen, HNC a HND gan y prifysgolion hyn yn £7,500 y flwyddyn*. Mae pob cwrs atodol BSc a BA yn £9,000.

► Cyrsiau wedi'u hachredu gan Brifysgol Caerwrangon

Mae Graddau Sylfaen wedi'u hachredu gan y brifysgol hon yn £9,250 y flwyddyn.

► Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol

Ar gyfer 2022-23, y ffioedd fesul 20 Credyd yw £900 – fel arfer byddech yn astudio 60 credyd fesul blwyddyn academiaidd.

► Graddau atodol gan Brifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd

Mae Graddau Atodol wedi'u hachredu gan y prifysgolion yma yn £9,000 y flwyddyn.

► Cymwysterau Uwch Cenedlaethol gan Pearson

Mae cymwysterau Cenedlaethol Uwch wedi'u hachredu gan Pearson yn amrywio o ran ffioedd, felly edrychwch ar wybodaeth y cyrsiau unigol ar ein gwefan.

*Sylwer bod y costau hyn yn gywir ym mis Gorffennaf 2023 a gallant fod yn amodol ar newid.



COSTAU YCHWANEGOL

Efallai y bydd costau ychwanegol ynghlwm wrth eich cwrs - gallant fod yn orfodol neu'n ddewisol. Bydd y costau hyn yn ychwanegol at ffioedd dysgu a rhaid i'r myfyrwyr eu talu er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn llwyr a chwblhau eu hastudiaeth. Bydd costau o'r fath yn berthnasol i offer, teithiau, lleoliadau ac archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fe fydd gan bob cwrs gostau ychwanegol gwahanol a chânt eu nodi ar ein gwefan dan fanylion y cyrsiau.

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AU

» LLWYDDWCH GYDA FFORDDIADWYEDD

CANOLBWYNTIO AR GYLLID

Wrth astudio addysg uwch, bydd dwy brif gost - ffioedd dysgu a chostau byw. Fodd bynnag, bydd cymorth ariannol ar gael drwy fenthyciadau (y bydd rhaid i chi eu had-dalu) a grantiau/bwrsariaethau (nad oes rhaid i chi eu had-dalu).

GWYBODAETH AR GYFER MYFYRWYR ADDYSG UWCH LLAWN AMSER*

Gall myfyrwyr sy'n astudio eu cwrs AU cyntaf, ac sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, fod yn gymwys am Fenthyciad Ffi Dysgu o hyd at uchafswm o £9,250. Nid yw'r Benthyciad Ffi Dysgu yn seiliedig ar incwm eich aelwyd. Yn ogystal â'r benthyciad hwn, gallwch gael cymorth cynhaliath hefyd (cymorth gyda chostau byw). Gall myfyrwyr cymwys sy'n byw oddi cartref (y tu allan i Lundain) gael £10,710 y flwyddyn, drwy gyfuniad o grant a benthyciad. Mae swm y grant a gewch yn dibynnu ar incwm eich aelwyd.

O.N Os ydych wedi astudio cwrs AU o'r blaen, mae'n bwysig eich bod yn deall y gall effeithio ar eich cymhwysedd am gymorth. Ewch i www.studentfinancewales.co.uk ac edrychwch ar yr adran Rheolau ar Astudiaeth Flaenorol.

GWYBODAETH AR GYFER MYFYRWYR ADDYSG UWCH RHAN AMSER*

Gall myfyriwr sy'n astudio yng Nghymru wneud cais am fenthyciad nad yw'n seiliedig ar brawf modd o hyd at £2,625 i dalu am eu ffioedd blynyddol. Mae angen i fyfyrwyr fod yn astudio ar ddwysedd o 25% o leiaf er mwyn bod yn gymwys e.e. myfyriwr llawn amser yn cwblhau 120 credyd mewn blwyddyn, felly byddai angen i fyfyriwr rhan amser gwblhau o leiaf 30 credyd y flwyddyn. Gall myfyrwyr wneud cais am gymorth gyda chostau byw blynyddol am uchafswm o £5,929. Bydd swm y grant a'r benthyciad a ddyfarnir i chi yn ddibynol ar y nifer o oriau y byddwch yn eu hastudio ac incwm eich aelwyd.



Bydd angen i chi wneud cais am gyllid cyn dechrau eich cwrs; gorau po gyntaf y gwnewch chi hyn. Cofiwch y bydd angen i chi wneud cais am gyllid bob blwyddyn academiaidd.

Mae manylion llawn yr holl gymorth ariannol a sut i wneud cais ar gael ar wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru:

» WWW.STUDENTFINANCEWALES.CO.UK

Cyllid Myfyrwyr Lloegr:

» WWW.GOV.UK/STUDENT-FINANCE

*Sylwer bod y costau hyn yn gywir ym mis Gorffennaf 2023 a gallant fod yn amodol ar newid.

BWRSARIAETHAU, GRANTIAU A CHYMORTHDALIADAU

Gallech fod yn gymwys am fwrsariaethau, grantiau neu gymorthdaliadau i'ch cefnogi chi wrth i chi astudio. Mae'r meini prawf cymhwysedd yn ddibynnol ar eich amgylchiadau. Am ragor o wybodaeth ynghylch y cynnig ariannol sydd ar gael – ewch i'n gwefan:

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/CY/HE

LWFANS MYFYRWYR ANABL

Os oes gennych anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, gallech fod yn gymwys am gymorth ariannol. Grantiau yw'r Lwfansau Myfyrwyr Anabl i helpu i dalu'r costau hanfodol ychwanegol y gallech eu hwynebu o ganlyniad i'ch anabledd.

Ewch i wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru/Lloegr am ragor o wybodaeth.

MAE OPSIYNAU CYMORTH ARIANNOL ERAILL YN CYNNWYS:

Mae'n bosibl y cewch gyllid ychwanegol os oes gennych oedolion neu blant sy'n ariannol ddibynnol arnoch chi, gan gynnwys:

- » Grant Oedolion Dibynnol
- » Grant Gofal Plant
- » Lwfans Dysgu i Rien

Mae llu o opsiynau am gymorth ariannol ar gael ar ein gwefan

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AU



EICH CANLLAW CYMWYSTERAU

» DEWIS Y CWRS CYWIR I CHI

Yn ansicr pa gymhwyster sy'n addas i chi neu ar ba lefel y dylech ddechrau? Dyma ganllaw defnyddiol i'ch helpu chi ddeall y lefel astudio ar gyfer ein cyrsiau ac i'ch cynorthwyo i ddewis y cymhwyster addas ar eich cyfer chi a'ch nodau.

LEFEL	Cymhwyster		Llwybr Dilynant	Lefel Swydd
7	Gradd Meistr/Doethuriaeth		--	Gweithiwr Proffesiynol Siartredig
6	Gradd Anrhydedd/Baglor		Gradd Meistr neu Ddoethuriaeth	
5	Gradd Sylfaen / HND	Diploma Proffesiynol / Diploma mewn Addysg Uwch	Codi'r radd i ennill gradd lawn	Gweithiwr proffesiynol ym maes rheoli
			Prentisiaeth Gradd	
4	HNC	Tystysgrif Addysg Uwch	Prentisiaeth Uwch NVQ 4	
3	Diploma Estynedig Lefel 3 Diploma Lefel 3 Diploma Atodol Lefel 3 Tystysgrif Lefel 3	3 Safon Uwch 2 Safon Uwch 1 Safon Uwch 1 Safon UG	Uwch Brentisiaeth NVQ 3	Technegydd uwch, Goruchwyliwr medrus



GRADDAU SYLFAEN

Mae Graddau Sylfaen yn cyfuno astudiaeth academaidd gyda dysgu yn y gweithle/dysgu cysylltiedig â gwaith, ac yn cyfateb yn fras i ddwy flynedd gyntaf gradd. Maent wedi'u dylunio gyda maes gwaith penodol mewn golwg, gyda chymorth gan sefydliadau o bob sector, fel eich bod chi'n magu'r sgiliau mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Y CAM NESAF

Ar ôl i chi gyflawni Gradd Sylfaen, gallwch ddefnyddio eich cymhwyster a'ch profiad gwaith i ddod o hyd i waith, neu 'godi' eich cymhwyster i Radd Baglor lawn. Mae hyn fel rheol yn cynnwys un neu ddwy flynedd ychwanegol o astudio.

TYSTYSGRIFAU CENEDLAETHOL UWCH (HNC) A DIPLOMAU CENEDLAETHOL UWCH (HND)

Cyrsiau cysylltiedig â gwaith yw HNC a HND a werthfawrogir yn fawr gan gyflogwyr yn y DU a dramor. Er bod Graddau Baglor yn tueddu i ganolbwyntio ar ennill gwybodaeth, mae HNC a HND wedi'u dylunio i roi i chi'r sgiliau i ddefnyddio'r wybodaeth honno yn effeithiol mewn galwedigaeth benodol.

Mae cymwysterau Cenedlaethol Uwch yn gwneud mwy na'ch paratoi ar gyfer gwaith. Mae rhai HNC yn caniatáu mynediad uniongyrchol i ail flwyddyn rhaglen radd ac mae nifer o HND yn caniatáu mynediad uniongyrchol i drydedd flwyddyn gradd. Gall HNC neu HND hefyd eich cyflwyno i nifer o gyrff proffesiynol. Felly, p'un ai a ydych eisiau camu'n syth i'r byd gwaith neu barhau â'ch astudiaethau, gall ennill cymhwyster Cenedlaethol Uwch fod yn fan cychwyn arbennig o dda.

GRADDAU 'ATODOL'

Mae gradd Atodol yn gyfwerth â blwyddyn olaf astudiaeth israddedig, gan roi cymhwyster lefel gradd i chi. Fel yr awgryma'r enw, mae'r cyrsiau hyn yn eich galluogi i 'godi' eich cymhwyster presennol, p'un ai a yw'n Radd Sylfaen neu'n gymhwyster perthnasol arall, fel HND. Mae gan bob cwrs ei ofynion mynediad ei hun, felly edrychwch ar y cwrs sydd o ddiddordeb i chi am ragor o wybodaeth ynghylch beth yn union fydd ei angen arnoch i wneud cais. Yn ogystal, sicrhewch eich bodd yn gwirio a ydych yn gymwys am gyllid myfyrwyr.

GOFYNION MYNEDIAD

Gallwch edrych ar ofynion mynediad cwrs ar y tudalennau cyrsiau unigol ar ein gwefan.

Ddim yn siŵr a ydych chi'n bodloni'r gofynion mynediad?

Rydym yn cymryd i ystyriaeth eich profiad personol a proffesiynol, felly peidiwch â gadael i'r gofynion mynediad i rhwystro chi, os ydych chi'n ansicr cysylltwch â ni drwy he@coleggwent.ac.uk

ALLWEDD PRIFYSGOL

PA - Prifysgol Aberystwyth **PMC** - Prifysgol Metropolitan Caerdydd
PDC - Prifysgol De Cymru **P** - Pearson **PC** - Prifysgol Caerगाer

ASTUDIAETHAU CEFFYLAU AC IECHYD ANIFEILIAID

Wrth eich bodd ag anifeiliaid? Beth am ddilyn gyrfa yn y maes? Carlamwch drwy un o'n cyrsiau astudiaethau ceffylau neu iechyd anifeiliaid ar ein campws gwledig a hardd ym Mrynbuga.

Caiff myfyrwyr astudiaethau ceffylau ddefnydd llawn o'n hysgolion dan do ac awyr agored a'n cyfleusterau lifrai, felly byddwch yn dysgu sut i ofalu am geffylau, yn archwilio eu hymddygiad ac yn dysgu am y diwydiant ar y campws.



EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawn Amser/ Rhan Amser	Campws
Astudiaethau Ceffylau	BSc Atodol	PA	LLA	B
Astudiaethau Ceffylau	Gradd Sylfaen	PA	LLA	B
Iechyd a Llesiant Anifeiliaid	BSc Atodol	PDC	LLA	B
Iechyd a Llesiant Anifeiliaid	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	B
Nyrsio Milfeddygol	BSc Atodol	PDC	LLA	B
Nyrsio Milfeddygol	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	B

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

A WYDDOCH CHI?

MAE DROS 11,000 O BOBL

yn cael eu cyflogi yn ydiwydiant amaethyddol yng Nghymru

(EMSI, 2023)

» BETH NESAF?

Efallai bydd gennych yr opsiwn i astudio am flwyddyn ychwanegol yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis er mwyn cyflawni Gradd Faglor lawn, neu ddefnyddio eich Gradd Sylfaenol fel cymhwyster annibynnol i geisio gwaith ym meysydd megis ymarfer milfeddygol, ymddygiad a seicoleg anifeiliaid.

“

Yn Coleg Gwent, mae darlithwyr gwych, cyfleusterau gwych, yn ogystal ag arena dan do, arena awyr agored, a cheffylau arbennig i'w cael yno! Mae'n lleol, felly rwyf wedi cael cyfle i astudio cymhwyster o safon ar hiniog fy nrws. Mae maint y dosbarthiadau yn llawer llai na dosbarthiadau prifysgol arferol, felly mae ar lefel llawer mwy personol gyda'ch darlithwyr. Byddwn yn sicr o argymhell cwrs Addysg Uwch yn Coleg Gwent.

JORDAN WHITTAKER

» GRADD SYLFAEN ASTUDIAETHAU CEFFYLAU



CELF, DYLUNIO, Y CYFRYNGAU A FFOTOGRAFFIAETH

Mae'r diwydiannau creadigol yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw faes arall yn economi'r DU - newyddion gwyb i raddedigion dawnus sy'n frwd dros gelf a dylunio.

Mae ennill eich bara menyn drwy gelf yn sefyllfa braf i fod ynddi. Prin iawn yw gallu dweud eich bod yn gwneud rhywbeth sy'n wirioneddol mynd â'ch bryd bob dydd, felly os ydych chi'n gallu datblygu gyrfa yn y diwydiannau creadigol, mae'n debyg y cewch fodlonrwydd mawr yn eich swydd. Ein stiwdios celf, dylunio, ffasiwn, y cyfryngau a ffotograffiaeth yw'r lle delfrydol i fynegi eich hun, arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau a pherffeithio'ch arbenigedd.

A WYDDOCH CHI?

MAE 35,400 O BOBL

yn cael eu cyflogi yn y creadigol diwydiannau yng Nghymru.

(Creative Wales, 2023)

“

Penderfynais astudio Celf a Dylunio Gemau yn Coleg Gwent oherwydd ei fod yn llawer rhatach na phrifysgolion eraill. Mae'n gwrda iawn oherwydd bod y modiwlau wir yn eich caniatáu chi i fod yn greadigol. Mae'r tiwtoriaid yn wych ac yn creu awyrgylch braf yn y dosbarth.

THOMAS MORTON

» GRADD SYLFAEN MEWN CELF A DYLUNIO GEMAU



EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawn Amser/ Rhan Amser	Campws
Ffotograffiaeth	BA Atodol	PMC	LLA	C
Ffotograffiaeth	Gradd Sylfaen	PMC	LLA	C
Celf a Dylunio	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	C
Y Celfyddydau Perfformio	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	C
Darlunio	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	C
Darlunio	BA Atodol	PDC	LLA	C
Cynhyrchu Cyfryngau	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	C
Artist-ddylunydd Gwneuthurwr	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	C



BETH NESAF?

Gall ein cyrsiau creadigol eich paratoi chi ar gyfer ystod eang o yrfaeodd a chyfleoedd yn y diwydiannau creadigol hynod gystadleuol. Ymhlith yr opsiynau mae'r cyfryngau, ffotograffiaeth, dylunio creadigol, ffasiwn, gemau a theledu a ffilmiau.

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

CYFRIFIADUREG A THECHNOLEG DDIGIDOL

Mae technoleg o'n cwrpas ym mhob man yn y byd sydd ohoni, ac mae galw sylweddol am sgiliau digidol a chyfrifiadureg cryf.

Drwy ddilyn cwrs cyfrifiadureg addysg uwch, gallwch feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnoch i gael gyrfa werth chweil, yn ogystal â dysgu gan ddefnyddio offer o'r radd flaenaf.

Gellir dadlau mai Technoleg Ddigidol yw'r sector sydd yn tyfu ac yn esblygu gyflymaf; does dim digon o gyflogaion yn meddu ar y sgiliau priodol i lenwi'r holl swyddi, felly mae cyflogwyr o hyd yn chwilio am recriwtiaid posibl sy'n meddu ar y sgiliau hyn.

A WYDDOCH CHI?

Mae Rheolwyr TG yn ennill a cyfartaledd o

£42,000

y flwyddyn?

(EMSI, 2023)

EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawm Amser/ Rhan Amser	Campws
Technolegau Digidol	HNC	BG	RHA	BG
Cyfrifiadura	HND	DC	LLA	DC
Seiberddiogelwch*	HNC	PDC	LLA	BG
Seiberddiogelwch*	HND	PDC	LLA	BG

“

Mae Coleg Gwent yn cynnig llawer o gyfleoedd gwyh; gan gynnwys cyfleoedd profiad gwaith gwyh. Mae maint y dosbarthiadau yn llai na'r brifysgol ac wrth gwrs, cewch ddod i nabod y tiwtoriaid yn dda. Ar ôl gorffen fy nghwrs, hoffwn fynd ymlaen i wneud fy ngradd atodol Baglor ac o'r fan honno wedyn, gobeithiaf sicrhau swydd yn y sector TG, megis cymorth systemau neu rwydweithio.

NICHOLAS MALOLEPSZY

» HND CYFRIFIADURA



» BETH NESAF?

Os ydych yn dewis astudio Gradd Sylfaen, mae'n bosibl y cewch ddewis astudio am flwyddyn arall yn llawn neu'n rhan amser yn eich prifysgol ddewisol i'w chodi i Radd Baglor lawn, neu fel arall gallwch gamu'n syth i'r byd gwaith. Gallai eich opsiynau gyrfa, yn dibynnu ar eich cwrs, gynnwys cyfarwyddwr TG, datblygwr meddalwedd, rhaglennu, cymorth system a llawer mwy!

*Mae'r cyrsiau hyn yn amodol ar ddilysiad.

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

ADEILADU A'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG



Cynlluniwch ac adeiladwch eich dyfodol eich hun yn y maes adeiladu.

Os ydych chi am gyfrannu at newid siâp y gorwel, adeiladu pontydd hyfryd neu ddylanwadu ar bensaernïaeth, byddwch yn dysgu'r holl dechnegau a'r egwyddorion diweddaraf i'ch paratoi chi ar gyfer ein HNC mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig – mae unrhyw beth yn bosib.

EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawn Amser/ Rhan Amser	Campws
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HNC	PDC	LLA	DC
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HNC	PDC	RHA	DC
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HND	PDC	LLA	DC
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HND	PDC	RHA	DC

Mae goruchwylwyr Crefftau Adeiladu
ac Adeiladu yng Nghymru yn ennill
cyfartaledd o

£42,200

y flwyddyn

(EMSI, 2023)



*Mae'r cyrsiau hyn yn amodol ar ddilysiad.

Noder: gall yr holl gyrisiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

WYDDOCH CHI?

Roedd dros

2500**o swyddi adeiladu
i'w cael yng
Nghymru yn 2021**

(EMSI, 2022)

>> BETH NESAF?

Efallai y bydd gennych y dewis i astudio am flwyddyn arall yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis i gyflawni Gradd Sylfaen lawn, neu gallech wneud eich Gradd Sylfaen fel cymhwyster annibynnol a chamu i'r byd gwaith ym meysydd megis peirianeg sifil, rheoli prosiectau, seilwaith, pensaernïaeth neu osodiadau trydanol.

“

Dechreuais arni ar lefel 3 ac yna datblygais i wneud yr HNC a'r HND. Mae'r cyrsiau yn rhoi dealltwriaeth well i chi am bob agwedd ar adeiladu ac mae Coleg Gwent wedi rhoi cysylltiadau gwych â chyflogwyr a phrofiadau i mi er mwyn fy ngwneud yn fwy cyflogadwy. Mae maint y dosbarthiadau yn llai a chewch fwy o addysg un i un, a oedd yn hynod fuddiol!

BEN ROBERTS

**>> HND ADEILADU
A'R AMGYLCHEDD
ADEILEDIG**



ADDYSG A HYFFORDDIANT



**Awydd gwneud gwahaniaeth ym mywyd
rhywun drwy addysgu?**

Gall gyrfa addysgu fod yn gyffrous a gwerth chweil, yn ogystal â chynnig yr amrywiaeth a'r cyfle i chi wella rhagolygon eraill ar gyfer y dyfodol. Mae ein cyrsiau yn ein cymhwyso chi i addysgu unigolion dros 16 oed, felly bydd angen i chi allu ymwneud yn dda â myfyrwyr o bob oedran a gallu, gan fod y proffil o fyfyrwyr posibl yn eang tu hwnt. Gallech fod yn addysgu cyrsiau academiaidd i ymadawyr ysgol sydd eisiau mynd i'r brifysgol, oedolion sydd eisiau newid cyfeiriad eu gyrfa neu bobl sy'n dychwelyd i'r ystafell ddosbarth flynyddoedd ar ôl gadael y byd addysg.



WYDDOCH CHI?

Mewn rôl addysgu neu hyfforddi uwch yng Nghymru, gallech ennill cyflog nodweddiadol o hyd at

£42,325

(University & College Union, 2021)

»» BETH NESAF?

Mae ein cyrsiau addysgu yn eich cymhwyso chi i addysgu mewn addysg ôl-16 oed a allai gynnwys colegau, dosbarthiadau chweched dosbarth, addysg i oedolion ac yn y gymuned, darparwyr hyfforddiant cysylltiedig â gwaith a lleoliadau dysgu troseddwy. Nid ydynt yn rhoi statws athro cymwys i chi, sy'n ofynnol ar gyfer addysgu cynradd ac uwchradd.



Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawm Amser/ Rhan Amser	Campws
Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET)	Tystysgrif Broffesiynol	PDC	RHA	BG
Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PcET)	Tystysgrif Raddedig Broffesiynol (TAR)	PDC	RHA	BG



“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent oherwydd mae'r bobl yr ydych yn eu cwrrd yno yn wych. Roedd fy nhwtor personol yn arbennig, yn hynod gefnogol, yn broffesiynol ac roeddwn yn gyfforddus iawn yn sgwrsio gydag ef am unrhyw beth. Yn ystod y profiad gwaith, cewch adborth strwythuredig ac effeithiol a gallwch ei roi ar waith drwy eich addysgu, ac mae'n eich helpu chi i ddeall anghenion dysgu gwahanol.

MACEY JONES

» ADDYSG A HYFFORDDIANT
ÔL-ORFODOL



PEIRIANNEG

Dyfeisiwch eich dyfodol! Mae peirianwyr yn hanfodol i fywyd bob dydd, o'r ffonau rydym yn eu defnyddio, y diaroglydd rydym yn ei roi ar ein cyrff i'r awyrennau rydym yn teithio ynddynt. Mae'r sector yn amrywiol iawn, yn hynod fedrus ac yn talu'n dda.

Mae galw mawr am beirianwyr, felly mae swyddi ar gael bob amser. Gwaith peirianwyr mecanyddol yw dylunio a chynnal cydrannau a systemau gan ddefnyddio eu gwybodaeth ffiseg a mathemateg, a chan weithio gyda deunyddiau uwch megis ffeibr carbon a deunyddiau cyfansawdd.

O ddarnau cydrannol bychain i rwydweithiau neu gridiau trydanol cyfan; mae angen trydan ar gyfer busnes, cyfathrebu ac adloniant. Os ydych chi'n rhoi sylw at fanylion ac yn wybodus ynghylch yr egwyddorion, peirianneg drydanol yw'r dewis delfrydol i chi.

“

Fy nod yw dod yn beiriannydd a thrwy astudio yn Coleg Gwent enillais y cymwysterau academiaidd sydd eu hangen arnaf. Mae'r cwrs yn hyblyg ac mae popeth yr ydych yn ei ddysgu yn berthnasol ac yn drosglwyddadwy i amgylcheddau gwaith. Mae'r tiwtoriaid yn wych, mae gennyf berthynas dda gyda nhw a gallaf ofyn am help unrhyw bryd.

HYWEL CRUICKSHANK

>> HND PEIRIANNEG



Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawen Amser/ Rhan Amser	Campws
Peirianneg Fecanyddol	HNC	PMC	RHA	C
Peirianneg Fecanyddol	HND	PDC	RHA	C
Peirianneg Electronig a Thrydanol	HNC	PMC	RHA	C
Peirianneg Electronig a Thrydanol	HND	PDC	RHA	C
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig*	HNC	PMC	RHA	DC
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig*	HND	PMC	RHA	DC
Peirianneg Sifil*	HNC	PMC	RHA	DC
Peirianneg Sifil*	HND	PMC	RHA	DC
Thrydanol (Chwaraeon Moduro)*	HNC	PMC	LLA	BG

*Mae'r cyrsiau hyn yn amodol ar ddilysiad.

WYDDOCH CHI?

Mae galw mawr am Beirianwyr Mecanyddol yng Nghymru, gyda bron i

3,000 O BOBL

wedi'u cyflogi yn y rôl hon – mae hynny 14% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

» BETH NESAF?

Yn dibynnu ar ba lwybr ydych chi'n ei ddewis, gallech fynd yn eich blaen i weithio yn un o'r meysydd awyrenegol, modurol neu gyfansoddion, a meysydd peirianneg cysylltiedig. Os ydych yn astudio HNC, gallech hefyd fynd ymlaen i astudio ymhellach, drwy astudio'r HND neu un o'r graddau peirianneg.

Mae Peirianwyr Trydanol yng Nghymru yn ennill cyfartaledd o

£46,000

y flwyddyn

(EMSI, 2022)



COLUR AR GYFER Y THEATR/CYFRYNGAU A THERAPIAU CYFLENWOL

Gall ein cyrsiau harddwch a therapiau eich helpu chi i ddechrau ar yr yrfa yr ydych yn dyheu amdani!

Bydd eich creadigrwydd yn disgleirio wrth ddilyn ein cyrsiau colur theatrig addysg uwch, a chewch feithrin yr holl sgiliau sydd eu hangen arnoch i weithio mewn rôl gyffrous yn-y diwydiant colur ar gyfer ffilmiau, y theatr a theledu.

Ar ôl cwblhau ein cyrsiau therapiau cyflenwol, byddwch yn therapydd arbenigol, medrus achrededig sy'n barod i wynebu'r byd gwaith.

WYDDOCH CHI?

Fel uwch-artist colur effeithiau arbennig, gallech ennill hyd at

£62,196

(Salary Expert UK, 2022)



EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawm Amser/ Rhan Amser	Campws
Gofal Iechyd Cyflenwol (gyda statws Ymarferlydd)	HND	PMC	LLA	C
Colur Arbenigol	HND	PMC	LLA	C

“

Rwy'n mwynhau pob agwedd ar fy nghwrs. Rwy'n hoff o'r campws ac rwyf wrth fy modd â modiwlau'r cwrs oherwydd bod modd eu teilwra. Rwy'n hoffi'r tiwtoriaid oherwydd eu bod mor gefnogol, maent yn rhoi cymorth academiaidd a gallant hefyd eich rhoi chi ar ben y ffordd os oes angen cymorth o fath arall arnoch, gydag iechyd meddwl neu lesiant er enghraifft.

EMILY WATKINS

» COLUR THEATRIG A'R CYFRYNGAU



» BETH NESAF?

Ar ôl cwblhau cwrs HND, gallwch symud ymlaen ymhellach a chwblhau gradd israddedig ym maes therapiau cyflenwol neu golur arbenigol. Fel arall, os ydych chi'n dymuno camu'n syth i fyd gwaith gyda'ch HND, sylwch y gallwch wneud cais am swyddi uwch neu fwy arbenigol yn y sector.

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

IECHYD A GOFAL

Gofalwch am eich dyfodol. Mae'r sector gofal yn cynnig ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith a all roi boddhad mawr i chi, ac a all gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl eraill.

Gall ein cyrsiau gofal iechyd eich paratoi chi am yrfa lwyddiannus, boed ydych yn dymuno gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion, arwain tîm i ddarparu gofal o'r ansawdd orau neu ddylanwadu polisi ar lefel genedlaethol neu ranbarthol.

Os byddai'n well gennych yrfa mewn gofal plant, bydd ein cwrs astudiaethau plentyndod yn rhoi i chi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad ymarferol a fydd ei angen arnoch mewn sector heriol ond hynod amrywiol a gwerth chweil. O ystyried bod iechyd meddwl a chorfforol yn bynciau mor ddadleuol ac amlwg yn y gymdeithas sydd ohoni, bydd ein Graddau Sylfaen arbenigol yn eich darparu chi â'r ddealltwriaeth i ymuno â'r sgwrs.



*Mae'r cyrsiau hyn yn amodol ar ddilysiad. Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawm Amser/ Rhan Amser	Campws
Astudiaethau Plentyndod	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	BG
Astudiaethau Plentyndod	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	C
Lechyd a Lles Cymunedol	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	BG
Gofal Ieuenctid a Chymdeithasol*	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	C
Gwyddorau Biofeddygol*	HND	PMC	LLA	DC



WYDDOCH CHI?

Gall arbenigwyr profiadol yn y sector hwn ennill hyd at

£39K

(EMSI, 2022)



Byddwn yn argymhell addysg uwch yn Coleg Gwent oherwydd bod y cwrs wedi fy helpu i ddatblygu cymaint yn academiaidd ac yn bersonol fel unigolyn. Ni fyddai hyn wedi digwydd heb gymorth anhygoel gan fy nhwtoriaid a myfyrwyr eraill. Rwy'n llawer mwy hyderus ym mhob agwedd ar fy mywyd.

CARLY STEPHENS

» GRADD SYLFAEN IECHYD A LLESIANIAT CYMUNEDOL

» BETH NESAF?

Efallai y bydd gennych y dewis i astudio am flwyddyn arall yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis i gyflawni Gradd Baglor lawn, neu gallech gyflawni'ch Gradd Sylfaen fel cymhwyster annibynnol a sicrhau gwaith ym meysydd megis gwaith ieuenctid, gwaith cymdeithasol, ysbytai, gofal plant neu therapi.



CERDD

Mae'r diwydiant hwn yn ymwneud â gwefr greadigol, ynni a gyrru. Os ydych chi'n teimlo'n gartrefol ar y prif lwyfan, yn y stiwdio recordio neu'n ysgrifennu cerdd eich hun, dyma'r diwydiant i chi.

Mae Cymru yn gwneud enw iddi hi ei hun yn y diwydiannau creadigol, un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y wlad, drwy gynhyrchu sioeau teledu hynod boblogaidd ac fel cartref i gerddorion a chantorion enwog. Beth am ychwanegu at y sêr hynny drwy astudio gyda ni heddiw?

“

Mae'r diwydiant yn anodd i mynd i mewn iddo, ac bydd astudio yn Coleg Gwent yn rhoi'r ymyl cystadleuol i chi gan fod ganddynt amrywiaeth o gyfleusterau gallech ddefnyddio na fyddwch chi'n dod o hyd iddo yn unman arall. Mae'r dechnoleg yn wych, ac mae'r tiwtoriaid yn meddu sgiliau technolegau modern a ddigidol. Dewisais Goleg Gwent dros prifysgolion eraill oherwydd fod maint y dosbarthiadau yn llawer llai, felly gallwch chi wneud defnydd o'r cyfleusterau a chewch fwy o gefnogaeth gan eich tiwtoriaid.

LEVI MORGAN

» CERDD POBLOGAIDD

EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawr Amser/ Rhan Amser	Campws
Cynhyrchu Sain ac Ysgrifennu Caneuon*	BA	PDC	LLA	C

*Mae'r cyrsiau hyn yn amodol ar ddilysiad.



A WYDDOCH CHI?

35,400

mae pobl yn cael eu cyflogi yn y
diwydiannau creadigol yng Nghymru

(Creative Wales, 2023)

BETH NESAF?

Efallai bydd gennych yr opsiwn i astudio am flwyddyn ychwanegol yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis er mwyn cyflawni Gradd Faglor lawn, neu gallech gyflawni eich Gradd Sylfaenol fel cymhwyster annibynnol a sicrhau gwaith ym meysydd megis perfformio, teledu, cynhyrchu cerddoriaeth, canu a llawer mwy!



Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

GWYDDONIAETH

Canfod y fformiwla er mwyn llwyddo.

Mae gwyddoniaeth o'n cwmpas ni bob dydd, o symudiad ceir, y feddyginiaeth rydym yn ei chymryd i siarad â Siri ar ein ffonau symudol. Mae datblygiadau technolegol a gwyddonol yn newid y byd rydym yn byw ynddo yn gyson; gallech weithio mewn deallusrwydd artiffisial a chyda robotiaid hyd yn oed!

Drwy astudio yn Coleg Gwent, cewch brofiad o lygad y ffynnon yn ein labordai gwyddoniaeth pwrpasol, y cyfan ag offer safonol y diwydiant.

Yn ogystal cewch eich addysgu gan ein darlithwyr arbenigol, sy'n gyfoeth o wybodaeth, a chewch gymorth gan dechnegwyr sydd â phrofiad diwydiannol a fforensig helaeth.



A WYDDOCH CHI?

Gall gwyddonwyr Fforensig profiadol ennill hyd at

£45,000

y flwyddyn

(Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol, 2023)

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

>> NEWYDD AM 2024!

EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawn Amser/ Rhan Amser	Campws
Gwyddorau Biofeddygol *	HND	PMC	LLA	DC

*Mae'r cyrsiau hyn yn amodol ar ddilysiad.



Byddwn yn argymhell cwrs gwyddoniaeth yn Coleg Gwent oherwydd; nid yw'r profiad yn eich gorlethu, mae cryn dipyn o amser rhydd ar gyfer dysgu annibynnol ac mae popeth sydd ei angen arnoch yn y Coleg. Rwy'n ei fwynhau a minnau'n fyfyrwr hŷn, mae'r dysgwyr yn fy nosbarth yn hŷn - rydym ni i gyd oddeutu'r un oedran ac yma am reswm.

ZUZANNA KALEK

>> MYNEDIAD I FIOUYDDORAU



>> BETH NESAF?

Gall ein cyrsiau gwyddoniaeth arwain at lawer o opsiynau gyrfaol, yn cynnwys gwyddor ffforensig, cyfrifiadureg ffforensig, technegydd labordy neu ymchwil.

CHWARAEON A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Mae gweithio mewn gwasanaethau i bobl yn golygu eich bod chi yn aml ar flaen y gad yn y diwydiant, felly y mae hanfodol bod gennych sgiliau rhyngbersonol gwych.

Gallwch ddilyn yn ôl traed eich arwyr chwaraeon, cadw ein cymunedau'n ddiogel gyda swydd mewn gwasanaethau cyhoeddus a brys, dod yn dylanwad fawr mewn digwyddiadau a lletygarwch neu gychwyn ar gyrfa werth chweil gyda gyrfa mewn twristiaeth!

“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent oherwydd bod y darlithwyr yn wych, mae gan y cwbl brofiad mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn arbenigo mewn meysydd gwahanol, felly cewch eich amlygu i ystod o wybodaeth. Maen nhw hefyd yn cynnig dosbarthiadau llai felly cewch fwy o addysgu un i un nag y byddech yn ei chael yn y brifysgol.

HUW LLOYD

>> HND GWASANAETHAU CYHOEDDUS A BRYs



EIN CYRSIAU

	Dyfarniad	Sefydliad dilysu	Llawm Amser/ Rhan Amser	Campws
Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon	Gradd Sylfaen	PDC	LLA	C
Cyflyru, Adfer a Thyfino Chwaraeon (SCRaM)	Gradd Sylfaen	PMC	LLA	C
Gwasanaethau Cyhoeddus a Brys	HND	PDC	LLA	C
Twristiaeth, Lletygarwch a Rheoli Digwyddiadau	HND	PMC	LLA	C

A WYDDOCH CHI?

Yr incwm canolrif cyfartalog ar gyfer swyddog Heddlu Uwch yng Nghymru yw

£56,100

y flwyddyn

(ESMI, 2023)



>> BETH NESAF?

Os ydych yn astudio Gradd Sylfaen, efallai bydd gennych yr opsiwn i astudio am flwyddyn ychwanegol yn llawn amser neu'n rhan amser yn y brifysgol o'ch dewis er mwyn cyflawni Gradd Baglor lawn, neu gallwch gamu'n syth i'r byd gwaith. Os ydych yn astudio HND, bydd hyn yn eich caniatáu chi i wneud cais am swydd uwch neu fwy arbenigol. Yn dibynnu ar eich cwrs, gallai opsiynau gyrfa gynnwys diffoddwr tân, swyddog yr heddlu, ymchwilydd safle trosedd, hyfforddwr personol, hyfforddwr llesiant a mwy!

Noder: gall yr holl gyrsiau newid a chael eu canslo os credir nad yw'n ymarferol eu cynnal.

MYNEDIAD I BRIFYSGOL

>> EICH LLWYBR AT RADD

Mae gradd prifysgol yn gyraeddadwy hyd yn oed os nad oes gennych chi unrhyw gymwysterau blaenorol.

Bydd cwrs Mynediad at Addysg Uwch yn eich cynorthwyo chi i ddatblygu'r wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch chi i'ch paratoi at y brifysgol.

DDIM YN BODLONI'R GOFYNION MYNEDIAD AR GYFER EICH CWRS?

Gall cwrs Mynediad i Brifysgol helpu chi ar y llwybr cywir. Mae ein cyrsiau Mynediad yn garreg gamu wych i eich llwybr dewisol Addysg Uwch, a gallwch arbenigo mewn nifer o feysydd. Cymerwch olwg ar y tudalennau cwrs unigol ar ein gwefan am ragor o wybodaeth.

Mae gradd prifysgol yn gyraeddadwy hyd yn oed os nad oes gennych chi unrhyw gymwysterau blaenorol yn lefel 3.



DIGONEDD O DDEWIS

Gallwch chi ddewis o amrywiaeth o lwybrau i'ch arwain chi at eich cwrs gradd dewisol, ac yna'r swydd ddelfrydol. Byddwch chi'n dysgu sut i fynd ati i astudio a'r technegau gwahanol y byddwch chi eu hangen i lwyddo.



CANFOD EICH CYFLYMDER

Mae nifer yn bryderus wrth gychwyn cwrs Mynediad i Addysg Uwch, yn enwedig os nad ydynt wedi bod mewn dosbarth ers peth amser. Ni fyddwn yn ceisio'ch baglu nac yn eich profi am bethau yr ydych chi wedi eu hanghofio flynyddoedd yn ôl. Er bydd rhai agweddau o'r cwrs yn heriol, prif bwrpas cwrs Mynediad i Addysg Uwch yw eich cynorthwyo chi i fod yn llwyddiannus yn prifysgol.



ADEILADU EICH SGILIAU

Rydym hefyd yn cynnig cwrs Cyn-mynediad (Sgiliau ar gyfer Astudiaeth Bellach) sy'n canolbwyntio ar sgiliau academiaidd i'ch cynorthwyo chi i fynd ymlaen at gwrs Mynediad i Addysg Uwch.

PAM ASTUDIO CWRS MYNEDIAD I ADDYSG UWCH?

1 Gwella Rhagolygon

Bydd yn agor drysau newydd, ei gwneud hi'n bosibl i chi fod yn llwyddiannus a'ch cynorthwyo chi i gael yr yrfa ddelfrydol.

2 Datblygu Sgiliau Hanfodol

Mae'n profi bod gennych chi sgiliau gwerthfawr megis astudio'n annibynnol a chwrdd â therfynau amser.

3 Dangoswch Eich Gallu

Mae prifysgolion eisiau cadarnhad eich bod yn gymwys ar lefel 3.

4 Profi eich hun

Mae'n profi y gallwch chi ymrwymo i rywbeth, ymdopi â gwaith caled a mynd pob cam o'r ffordd.

5 Profiad Gwych

Yn ogystal â rhoi cymhwyster i chi, byddwch chi'n ennill lluo o brofiadau a byddwch chi'n sicr yn gwneud cysylltiadau i'ch cynorthwyo yn y dyfodol.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Mynediad at AU - Gwyddorau Iechyd Meddygol	3	BG DC
Mynediad at AU - Meddygaeth	3	C
Mynediad at AU - Nyrsio ac Astudiaethau Gofal Iechyd	3	BG C DC T
Mynediad i AU - Plismona a Gwasanaethau Cyhoeddus	3	BG
Mynediad i AU - Y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol	3	BG DC

“

Byddwn yn argymhell Llwybr at Radd yn Coleg Gwent oherwydd nid yw'r profiad yn eich gorlethu, mae cryn dipyn o amser rhydd ar gyfer dysgu annibynnol ac mae popeth sydd ei angen arnoch yn y Coleg. Mae'r coleg yn eich paratoi ar gyfer y brifysgol yn llawer gwell nag ysgol uwchradd. Rwy'n gwybod llawer mwy nawr nag oeddwn yn y chweched dosbarth. Rwy'n ei fwynhau a minnau'n fyfyrwr hyn, oherwydd mae'r dysgwyr yn fy nosbarth yn hyn - rydym ni i gyd oddeutu'r un oedran ac yma am reswm.

SARA CROCKETT

» MYNEDIAD AT Y BLOWYDDORAU

BETH NESAF? »

Mae Cyrsiau Mynediad i Addysg Uwch yn cael eu cynnwys yn nhariff UCAS a chânt eu derbyn yn eang gan brifysgolion y DU, ond dylech chi wirio gyda'r brifysgol benodol y dymunwch chi fynd iddi. A fyddai'n well gennych chi aros yn eich milltir sgwâr ac arbed arian? Gallai cwrs lefel prifysgol yn Coleg Gwent fod yn berffaith i chi.

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

SUT I WNEUD CAIS

CWBLHEWCH
FFURFLEN GAIS

1



2

MYNYCHU
DIGWYDDIAD
YMGEISYDD
ADDYSG UWCH



3



CAEL
CYNNIG*



4

DERBYNEICH
CYNNIG



5

GWNEWCH GAIS
AM CYLLID
MYFYRWIR



6

MYNYCHU
COFRESTRU



7

DECHRAU
COLEG!



“

Roedd gwneud cais yn rhwydd!
Roeddwn i'n nerfus oherwydd fy oedran
a minnau wedi gweithio'n llawn amser
ers i mi adael yr ysgol, roeddwn i'n credu
mai dyna oedd fy unig opsiwn. Bu'r cam
cyfweiliad yn gymorth mawr i mi gan
eu bod wedi ateb fy holl gwestiynau a
thawelu fy meddwl, felly roeddwn yn
falch iawn o gael lle ar y cwrs.

TOM HATHWAY

» GRADD SYLFAEN,
DARLUNIO

**PAN FYDDWCH WEDI DEWIS
Y CWRYS YR HOFFECH EI
ASTUDIO, MAE GWNEUD CAIS
YN BROSES RHYDD!**

Nid oes angen gwneud cais ar
gyfer y rhan fwyaf o'n cyrsiau drwy
UCAS*, felly gallwch wneud cais ar
ein gwefan mewn ychydig funudau.
Gwnewch gais nawr!

**GWNEWCH
GAIS NAWR**

www.coleggwent.ac.uk



Wrth wneud cais ar gyfer cyrsiau Prifysgol Caerwrangon, rhaid defnyddio trefniadau ymgeisio UCAS.